

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Fai 2021.

- 1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Prenteg, Edward Evans Richard Parry - Bryncir, John Jones - Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams - Golan, Huw Pritchard, Delyth Evans - Pentrefelin, Iddon Edwards Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd
- 2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Gwilym Evans, Dylan Pritchard, Manon Jones Evans, Clifford Williams, Amanda N Owen.
- 3 **Ddim yn bresennol** - neb.
- 4 **Datgan buddiant** - eitem 13 Edward Evans.
- 5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** - Cofnodion 1/4/21 Gwenno Huws yn cynnig ei bod yn gywir a Huw Pritchard yn eilio.
- 6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Map o Ward Dolbenmaen - adroddodd y Clerc bod y gwaith o geisio cael copi yn dangos y wardiau yn parhau.

Llwybrau Cyhoeddus - Tŷ'n Ffridd - Ffridd Newydd, Garndolbenmaen, Bont Wern - Pont Faen, Pentrefelin. Cafwyd ateb gan Adran Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd, yn nodi y bydd y llwybrau yn cael sylw diwedd Mai/dechrau Mehefin.

Bont Felin, Bryncir - adroddwyd fod y gwaith wedi cychwyn.

Ffurflen Gais Claddu - trafodwyd os oedd rhoi manylion cyswllt agosaf ar y ffurflen yn mynd i fod o gymorth i'r tymor hir, wrth geisio cael cyswllt gyda'r teulu petai angen gwaith ar garreg fedd. Penderfynwyd ei bod yn gymorth yn y tymor byr.

- 7 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel - Cynghorydd John Jones am osod tâp o amgylch carreg fedd sy'n beryg a thynnu'r fainc o'r Fynwent.

Mynwent Ynyscynhaearn - Cynghorydd Huw Pritchard am atgyweirio darn o'r wal.

8 **Llwybrau Cyhoeddus** - dim i'w adrodd.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Garndolbenmaen - Problemau Parcio. Er i'r Cyngor Cymuned ddewis opsiwn ar gyfer gwella parcio yn y pentref, nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi digwydd gyda'r trigolion. Clerc i drafod y mater gyda'r Cynghorydd Stephen Churchman.

Pentrefelin - adroddwyd fod lorïau yn teithio o gyfeiriad Criccieth i Borthmadog yn methu mynd o dan Bont y Wern. Clerc i gysylltu gydag Adran Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt osod arwyddion uchder y bont yng nghyffiniau Criccieth.

Ger y Llwyn, Pentrefelin

- Gweithwyr yn parcio eu faniau a cheir ar y lôn fawr yn ddyddiol. Mae hyn yn creu anawsterau i geir yn teithio o'r ddau gyfeiriad. Weithiau maent yn parcio hanner ar y palmant/lôn sy'n golygu bod cerddwyr yn gorfod camu i'r lôn. Adroddodd y Clerc ei bod wedi adrodd hyn i'r Heddlu, ond am gysylltu gyda nhw eto.
- Sied wedi cael ei adeiladu yn yr ardd gefn. Clerc wedi derbyn canllawiau cynllunio ynglŷn ag adeiladau allanol gan Gyngor Gwynedd. Os yw maint y sied yn fwy na hyn a ganiateir, bydd hyn yn cael ei adrodd i Gyngor Gwynedd.
- Dymchwel 2 sied gerrig a rhoi'r cerrig yn yr afon. Clerc wedi cysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Clerc am drafod y pwyntiau uchod gyda'r Cynghorydd Stephen Churchman.

10 **Ffordd Mynwent Prenteg**

Derbyniwyd 3 pris am wneud y gwaith. Penderfynwyd cynnig y gwaith i'r Brodyr Evans.

11 **Tendrau**

Agorwyd yr amlenni gan y Clerc gyda'r Cynghorwyr yn gwylio.
Penderfynwyd cynnig y gwaith fel a ganlyn -

Mynwent Bethel - Ifan ac Idris.

Mynwentydd Prenteg, Cwm Pennant, Penmorfa ac Ynyscynhaearn - Dylan Edwards.

Cae Chwarae Penmorfa - Dylan Edwards.

Llwybrau Cyhoeddus ardal Bryncir, Golan a Garndolbenmaen - Ifan ac Idris.

Llwybrau Cyhoeddus ardal Penmorfa, Prenteg a Pentrefelin - Dylan Edwards.

Gadawodd y Cynghorydd Huw Pritchard y cyfarfod.

12 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd - Rhybudd 1af Cau'r Ffordd Dosbarth III ger Efail Cennin, Cennin. 3/5/21/

Gohebiaeth ychwanegol

- a Parc Cenedlaethol Eryri - Gweminar Adolygu Mesurau Rheoli Ymwelwyr yng Ngogledd y Parc 18/5/21.
- b Unllais Cymru - Penodi 3 Aelod ar gyfer Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru - rhannwyd 28/3/21.
- c Archwilio Cymru - Eich Tref, Eich Dyfodol - Digwyddiad ar Adfywio Canol Trefi. 20/5/21.
- ch Grŵp Cynefin - Fflatiau gwag Maes y Môr. Rhannwyd 28/3/21.
- d Bwletin Rhif 11 Mantell Gwynedd.
- dd Llun Mainc Mynwent Prenteg.

13 **Cynllunio**

Rhestrau - 27/3, 1/4, 9/4,16/4, 23/4/21.

Gadawodd y Cynghorydd Edward Evans y cyfarfod.

Ceisiadau Cynllunio - Ychwanegwyd C21/0394/36/LL Llystyn Isaf, Bryncir, Garndolbenmaen. LL51 9LX Codi to uwchben pwll biswail ac iard fwydo amaethyddol presennol.

Dychwelodd y Cynghorydd Edward Evans i'r cyfarfod.

14 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: - dim.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.20
Zurich	=	£1,222.00

Derbyniadau

Cyngor Gwynedd (Grant Cyfalaf Chwarae Llywodraeth Cymru).
Cae Chwarae Penmorfa £12,000.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,844.31 Cyfredol £24,077.34.

15 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Cyfarfod Blynyddol
- Cais Cynllunio

Gwefan: Cofnodion mis Ebrill, Dyddiadau Cyfarfodydd 2021 - 2022,
Datganiad Buddiant Personol 2020 - 2021.